# Y Digwyddiad

Mae Gŵyl Fwyd Sain Ffagan yn ddigwyddiad blynyddol a gynhelir yn nhiroedd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Wedi'i sefydlu yn 2010, mae'r ŵyl yn cynnig mynediad am ddim ac mae bellach yn un o hoff ddigwyddiadau ein hymwelwyr, gan groesawu hyd at 24,000 o ymwelwyr dros benwythnos y digwyddiad (yn ddibynnol ar y tywydd).

Yn ogystal â mwynhau gwledd o weithgareddau, dangosiadau, cerddoriaeth fyw ac adloniant i'r teulu cyfan, gall fynychwyr Gŵyl Fwyd Sain Ffagan flasu a phrynu cynnyrch o dros 80 o stondinau bwyd, diod a chrefft Cymreig sy'n swatio yng nghanol adeiladau hanesyddol yr Amgueddfa.

**Dyddiadau'r Digwyddiad: 12 & 13 Medi 2026**
**Oriau Agor: 10am-6pm**

**MAE'N RHAID I BOB STONDINWR FYNYCHU'R DDAU DDIWRNOD, A CHADW EU STONDIN AR AGOR AC WEDI EI STAFFIO TAN DDIWEDD Y DIGWYDDIAD.**

## Gwneud Cais

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 06/03/2026**

**Dyddiad cyhoeddi ceisiadau llwyddiannus: w/d 16/03/2026**

Cyn cwblhau'r ffurflen gais ar-lein, darllenwch y Canllaw Ymgeisio hwn a'i gael wrth law tra eich bod yn cwblhau eich cais. Yma mae'r holl wybodaeth fydd angen arnoch ynglŷn â chael stondin y dylid eu darllen a'u deall, a chytuno iddynt cyn cwblhau'r ffurflen gais.

**DARLLENWCH YN DRWYADL OS GWELWCH YN DDA, HYD YN OED OS YDYCH WEDI CAEL STONDIN YN YR ŴYL FWYD YN Y GORFFENNOL.**

Ar ôl chi ddarllen y Canllaw Ymgeisio hwn, cwblhewch y ffurflen gais ar-lein perthnasol erbyn y dyddiad cau:

1) Stondinau y Farchnad Fwyd
2) Arlwywyr ac Unedau Bwyd Stryd
3) Unedau Coffi a Hufen Iâ

Trwy nodi eich cyfeiriad e-bost uchod, byddwch yn derbyn copi o'ch ffurflen fel cadarnhad ei fod wedi ei gyflwyno yn llwyddiannus. Os oes gennych gyfrif Google/cyfeiriad ebost Gmail, mewngofnodwch cyn dechrau er mwyn gallu arbed eich gwaith tra'n cwblhau'r ffurflen.

Os yw'ch cais yn llwyddiannus, byddwn ni'n cysylltu â chi maes o law:

- I gadarnhau eich gofynion am unrhyw offer neu wasanaethau ychwanegol e.e. llogi dodrefn
- I gasglu eich gwaith papur e.e. asesiadau risg, tystysgrifau yswiriant, tystysgrifau PAT
- I brosesu eich taliad

## Mathau o Stondinau Ar Gael

Pob pris cyn TAW.

1) **STONDINAU Y FARCHNAD FWYD**
   Cynnyrch: Cynnyrch parod a/neu arlwywyr sydd angen ychydig o baratoi bwyd poeth e.e. cynhesu sawsiau, delis, crempogau. Ni chaniateir coginio gydag olew yn y marquee. Stondinau alcohol wedi eu cyfyngu – mwy o wybodaeth isod.
   Gofod: 3m x 2.5m mewn marquee fawr
   Ardal: Marquee Cae Tanerdy
   Pris: £225
   *Mae system aerdymheru (air con) wedi'i chynnwys ym mhris y stondin.*

2) **ARLWYWYR AC UNEDAU BWYD STRYD**
   Cynnyrch: Bwydydd poeth, prydau, hufen iâ a diodydd meddal.
   Gofod: Yn ddibynnol ar faint eich trelar/gazebo
   Ardal: I'w gadarnhau gan Drefnwyr y Digwyddiad
   Pris: £400

3) **UNEDAU COFFI A/NEU HUFEN IÂ**
   Cynnyrch: Diodydd poeth/meddal, cacennau, hufen iâ a byrbrydau oer
   Gofod: Yn ddibynnol ar faint eich trelar/gazebo
   Ardal: I'w gadarnhau gan Drefnwyr y Digwyddiad
   Pris: £300

**Sylwer:** Nid oes unedau bar ar gael mwyach ar gyfer y digwyddiad hwn. Bydd bariau dros dro yn cael eu rhedeg gan dîm bwyd a diod yr Amgueddfa. Gweler adran 5.4 isod am opsiynau ar gyfer gwerthu alcohol o babell y Farchnad Fwyd.

## Meini Prawf

Byddwn yn dewis stondinwyr yn seiliedig ar sawl ffactor:

| Meini Prawf | Pwysau |
|---|---|
| Hyrwyddo Cynnyrch Cymreig | 40% |
| Ymrwymiadau tuag at Gynaliadwyedd | 30% |
| Gwasanaeth Ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) | 20% |
| Cefnogwyr Cyson neu Fusnesau Newydd<br>Stondinau y Farchnad Fwyd<br>Pob Stondin Arall | <br>5%*<br>10% |
| **Darparu Samplau Bwyd/Diod – yn berthnasol i Stondinau y Farchnad Fwyd yn unig* | *5%* |

Mae'n rhaid i bob stondinwr gydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau Iechyd a Diogelwch, Hylendid Bwyd a Labelu Alergenau perthnasol, ac unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau ychwanegol a roddir gan yr Amgueddfa. Bydd staff y digwyddiad yn ogystal ag asiantaethau allanol yn cynnal gwiriadau ar hap yn ystod y digwyddiad.

## Cynaliadwyedd

Mae'r Ŵyl Fwyd wedi ymrwymo i gynaliadwyedd cymdeithasol ac amgylcheddol drwy gefnogi busnesau annibynnol lleol a lleihau ei effaith ar yr amgylchedd. Mae gennym bolisi a mesurau ar waith i:

- Fesur, monitro a lleihau ein hôl troed carbon
- Leihau ein defnydd o ynni
- Gynyddu ailgylchu ac ailddefnyddio
- Lleihau plastig untro trwy wahardd poteli dŵr plastig, cyllyll a ffyrc plastig a chaeadau cwpanau coffi
- Leihau'r nifer o gerbynau sy'n dod i'r safle yn cario dim ond un person
- Gynyddu'r nifer o opsiynau llysieuol a fegan

Gallwn ond wneud hyn gyda chymorth llawn ein stondinwyr. Ac rydyn ni'n gwybod bod llawer ohonoch chi hefyd ar daith i leihau eich effeithiau a chefnogi'r gymuned leol, felly rydyn ni eisiau clywed am eich gwaith da.

Byddwn yn parhau â'r Gwiriadau Ceisiadau eleni eto, felly bydd ein tîm yn ymweld â'ch stondin yn ystod y digwyddiad i wirio'r honiadau a wnaed yn eich cais. Sylwer y bydd y tîm yn gwirio pecynnu ac yn gofyn i weld derbynebau. Cynigir stondin am ddim i ddigwyddiad y flwyddyn nesaf i'r enillydd!

Sicrhewch eich bod wedi darllen ar wedi deall Telerau ac Amodau'r digwyddiad a nodir yn y Canllaw Ymgeisio hwn, yn ogystal â'n Canllaw Di-Blastig Untro sy'n cynnwys rhestr o ddeunydd plastig gwaharddedig a rhestr o opsiynau eraill mwy cynaliadwy.

**Oeddech chi'n gwybod?**

Mae Cymru, ynghyd â'r Almaen, yn arwain y ffordd drwy gynnig hyfforddiant wedi'i ariannu'n llawn i helpu busnesau bwyd a diod i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae mwy o wybodaeth, cymorth ac adnoddau ar gael yma:
Croeso i'r Modiwlau Hyfforddiant Addasu a Gwydnwch i Newid Hinsawdd - Food & Drink Wales

## Llogi Offer a Gwasanaethau Ychwanegol

Byddwn yn cadarnhau eich anghenion ar gyfer pŵer, llogi dodrefn ayb yn rhan nesaf y broses, os ydy'ch cais yn llwyddiannus. Rhestrir y prisiau isod er gwybodaeth (heb gynnwys TAW).

| Eitem | Pris |
|---|---|
| 13amp | £90 |
| 16amp | £100 |
| 32amp – ffâs sengl | £180 |
| 32amp – tri ffâs | £460 |
| 63amp – tri ffâs | £900 |
| Pŵer Dros Nos | £75 y noson |
| Bwrdd Tresl (6") | £10 |
| Cadair sy'n Plygu | £5 |
| Gwersylla ar y Safle | £10 y noson |

## Cwestiynau Cyffredin

**Pa ffurflen gais ddylwn i ei chwblhau?**

Os nad ydych chi'n siŵr pa ffurflen gais sydd fwyaf perthnasol i chi, neu eich bod yn ystyried cyflwyno mwy nag un chynnig, darllenwch y disgrifiadau 'Mathau o Stondinau' uchod. Os yw'n dal yn aneglur ebostiwch digwyddiadau@amgueddfacymru.ac.uk cyn gynted â phosibl i drafod ymhellach.

**Galla i wneud cais am stondin ar gyfer 1 diwrnod yn unig?**

Na allwch – mae'n rhaid i bob stondinwr logi gofod yn yr ŵyl am y ddau ddiwrnod, a pharhau i fasnachu trwy gydol oriau agor y digwyddiad (10am-6pm ar y dydd Sadwrn a Sul).

**Fy sgôr hylendid bwyd ar hyn o bryd yw 3* neu is – galla i dal wneud cais?**

Rhaid i bob stondinwr bwyd a diod gael sgôr hylendid bwyd o 4* neu 5*. Bydd eich cais yn cael ei ystyried os bydd ail-arolygiad wedi'i drefnu a sgôr newydd wedi'i gadarnhau o fewn amserlen y broses o ddewis stondinwyr (h.y. cyn dydd Llun 16 Mawrth 2026).

**Dwi wedi cofrestru gyda fy awdurdod lleol fel busnes bwyd ond heb gael yr archwiliad/sgôr eto. Galla i dal wneud cais?**

Rhaid i bob stondinwr bwyd a diod gael sgôr hylendid bwyd o 4* neu 5*. Os ydych chi'n aros am eich archwiliad cyntaf; os bydd eich cais yn llwyddiannus mewn egwyddor, byddwn yn cadw eich stondin hyd nes y dyddiad cau ar gyfer talu (h.y. dydd Gwener 17 Ebrill 2026). Os nad ydych chi wedi derbyn eich archwiliad erbyn hynny, bydd eich lle yn cael ei ryddhau i'r rhestr aros.

**Oes yna rwydwaith Di-Wifr ar y safle?**

Bydd rhwydwaith Di-Wifr Stondinwyr ar gael ar gyfer stondinau sy'n defnyddio dyfeisiau talu digyswllt.

**Sut bydda i'n gwybod bod fy nghais wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus?**

Byddwch yn derbyn copi o'ch cais trwy e-bost unwaith y bydd wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus. Sylwch na allwn ni weld ffurflenni drafft sydd heb eu cyflwyno.

**Os bydd fy nghais yn llwyddiannus, pryd fydd angen i mi dalu am y stondin?**

Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus anfon eu gwaith papur atom, archebu offer a gwasanaethau ychwanegol, a thalu ffi eu stondin yn llawn erbyn dydd Gwener 17 Ebrill 2026. Ni fydd eich stondin yn cael ei chadarnhau hyd nes y byddwn wedi derbyn eich holl waith papur a'ch taliad yn llawn.

**Nid wyf yn fusnes bwyd a diod ond hoffwn wneud cais am stondin.**

Mae'r pecyn cais hwn wedi'i anelu yn benodol at fusnesau bwyd a diod sydd â diddordeb mewn masnachu yn y digwyddiad hwn. I drafod mathau eraill o stondinau e.e. presenoldeb elusen a/neu sefydliad yn y digwyddiad ebostiwch digwyddiadau@amgueddfacymru.ac.uk

# Canllaw cam-wrth-gam i gwblhau Ffurflen Gais 2026

## Rhan 1 – Manylion Cyswllt a Manylion eich Uned

### 1.1 Manylion Cyswllt a'r Cwmni

Defnyddir eich manylion ond at ddiben y digwyddiad a chyfleoedd masnachol eraill o fewn Amgueddfa Cymru yn unig.

### 1.2 Cais am ostyngiad 50%

Rydym yn cynnig gostyngiad o 50% ar bris y stondin i elusennau a/neu busnesau newydd o Gymru sydd wedi bod yn masnachu am lai na 2 flynedd o ddyddiad y digwyddiad. Rydyn ni'n seilio hyn ar y dyddiad y gwnaethoch chi ddechrau masnachu fel busnes bwyd, nid pan gafodd y cwmni ei gorffori'n swyddogol gan Dŷ'r CwmnÏau.

Os sefydlwyd eich busnes **ar neu ar ôl 12 Medi 2024**, rydych yn gymwys i gael gostyngiad o 50% a dylech ateb 'Ydw' i'r cwestiwn hwn ar y ffurflen gais. Os sefydlwyd eich busnes **cyn 12 Medi 2024**, nid ydych yn gymwys a dylech ateb 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn.

Bydd y pris llawn yn cael ei godi am unrhyw gostau ychwanegol (e.e. pŵer, llogi dodrefn).

### 1.3 Manylion eich Uned

*Yn berthnasol i Stondinwyr y Farchnad Fwyd yn unig*

Nodwch os hoffech gael eich ystyried ar gyfer stondin gornel y tu mewn i'r marquee. Mae'r uwchraddiad dewisol hwn yn costio £75 + TAW ac yn darparu gofod ychwanegol ar gyfer paratoi, arddangosfeydd a gweini.

*Yn berthnasol i Arlwywyr ac Unedau Bwyd Stryd yn unig.*

Nodwch faint eich uned mewn metrau [Hyd x Lled x Uchder]

*Yn berthnasol i bob Stondin*

Gofynnwn hefyd am luniau o'ch stondin / uned. Gallwch uwchlwytho hyd at 5 ffeil yn yr adran hon. Wrth uwchlwytho dogfennau gyda'ch cais, sicrhewch fod enw'r ffeil yn cynnwys enw eich busnes a disgrifiad byr o'r ffeil:

e.e. [ENW'R BUSNES] – Trelar

### 1.4 Gofynion Pŵer

Os oes angen pŵer arnoch chi, rhowch fwy o fanylion yn yr adran hon. Os nad oes angen unrhyw bŵer arnoch o gwbl, atebwch 'Na' i'r cwestiwn cyntaf a nodi '0' ym mhob colofn yn y grid cyn symud ymlaen i'r dudalen nesaf.

Bydd angen i bob offer trydanol gael prawf PAT, gyda thystiolaeth wedi'i darparu cyn y digwyddiad a thystysgrifau ar gael i'w harchwilio ar y diwrnod.

Gwnewch bob ymdrech i leihau, a lle bo modd, dileu eich angen am bŵer dros nos. Bydd hyn yn ein helpu i leihau'n sylweddol y defnydd o danwydd ac ôl troed carbon y digwyddiad.

Mae manylion cyfanswm y llwyth fesul cyflenwad i'w gael isod.

| Cyflenwad | Cyfanswm y Llwyth |
|---|---|
| 13amp | 3.12kw |
| 16amp | 3.6kw |
| 32amp ffâs sengl | 7.68kw |
| 32amp 3 ffâs | 22kw |
| 63amp 3 ffâs | 43kw |

Nodwch bod y costau fesul cyflenwad fel y rhestrir uchod ar gyfer y cyflenwad trydan ac 1 cysylltiad bachu – nid yw'n cynnwys bocsys dosbarthu, addaswyr, holltwyr na cheblau ychwanegol.

I gefnogi'ch cais, bydd angen i chi gwblhau a chyflwyno taenlen o'ch anghenion pŵer. Lawrlwythwch y templad yma.

Nodwch:

- Bydd angen rhestru pob eitem yn unigol. Os oes gennych chi mwy nag un o'r un offer, rhestrwch nhw ar wahân e.e. Oergell 1, Oergell 2, Oergell 3.
- Colofn C, rhowch ddisgrifiad byr o'r offer.
- Colofn D, dewiswch y math o blwg o'r ddewislen – 13A, 16A neu 32A.
- Colofn E, teipiwch watedd pob offer – teipiwch y rhif yn unig.
- Bydd cyfanswm eich watedd yn cael ei gyfrifo'n awtomatig ar waelod y tabl – peidiwch â golygu'r blwch yma.

Gallwch uwchlwytho eich taenlen anghenion pŵer ar ddiwedd yr adran yma. Wrth uwchlwytho dogfennau gyda'ch cais, sicrhewch fod enw'r ffeil yn cynnwys enw eich busnes a disgrifiad byr o'r ffeil:

e.e. [ENW'R BUSNES] – Anghenion Trydanol

## Rhan 2 – Eich Cynnyrch

### 2.1 Disgrifiad byr

Rhowch ddisgrifiad byr o'ch busnes a'r cynnyrch i'w werthu yn y digwyddiad. Caiff hwn ei ddefnyddio mewn deunydd marchnata.

### 2.2 Bwydlen

Gallwch uwchlwytho'ch bwydlenni/rhestr prisiau fel ffeiliau isod yn y ffurflen gais. Gallwch uwchlwytho hyd at 5 ffeil yn yr adran hon. Os nad yw'ch bwydlenni yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei angen, teipiwch yn y blwch testun agored yma.

Rydym yn eich annog i gynnig bwydlen o ansawdd uchel gydag ystod dda o opsiynau i bobl, gan gynnwys:

- O leiaf 1 dewis pryd am £7 neu lai
- O leiaf 1 opsiwn llysieuol
- O leiaf 1 opsiwn fegan
- Opsiynau i bobl ag alergeddau ac anoddefiadau bwyd
- Opsiynau a ffafrir yn ddiwylliannol

Gwnewch yn siwr fod y rhain wedi eu labeli'n glir ac yn hawdd eu hadnabod ar eich bwydlenni/byrddau arddangos. Bydd ein tîm yn gwirio bod yr opsiynau hyn yn cael eu harddangos yn glir ar eich stondin a'u bod o ansawdd a maint rhesymol, fel rhan o'n cynllun gwobrau stondinwyr.

Sylwer na roddir hawl i stondinwyr werthu eitemau sydd heb eu nodi yma.

**Dewis pryd £7 neu lai**

*Yn berthnasol i Arlwywyr ac Unedau Bwyd Stryd yn unig.*

Mae Gŵyl Fwyd Sain Ffagan wedi ymrwymo i aros yn hygyrch i bob unigolyn a theulu beth bynnag fo'u hincwm gwario. **Mae'n ofynnol i bob stondinwr bwyd gynnig oleiaf un pryd oedolyn am £7 neu lai.** Dylai hwn fod yn bryd sylweddol sy'n cynnig gwerth da i ymwelwyr. Gall maint y pryd fod yn llai na'ch eitemau arferol ar y fwydlen, ond rhaid i'r cynnig fod o ansawdd da ac yn gynrychioladol o'ch bwyd. Dylai'r pryd hwn fod ar gael drwy gydol yr ŵyl oni bai ei fod wedi gwerthu allan.

**Opsiynau llysieuol a fegan**

Eitemau llysieuol yw'r rhai a wneir heb gig coch, cyw iâr, cynhwysion pysgod a deilliadau. Mae eitemau fegan yn cael eu gwneud heb gig, pysgod, llaeth, wyau, mêl a'u deilliadau. Nid yw sglodion neu ffa pob yn cyfrif!

Rydym yn deall nad yw bob amser yn bosibl i rai busnesau ddarparu opsiynau llyeisuol neu fegan.

**Opsiynau i bobl ag alergeddau ac anoddefiadau bwyd**

Wrth restru'r eitemau yn eich ffurflen gais, nodwch pa eitemau sydd heb alergeddau beth bynnag, yn ogystal ag unrhyw eitemau y gallwch eu haddasu ar gais i'w gwneud yn addas ar gyfer rhywun ag alergedd neu anoddefiad.

**Opsiynau a ffafrir yn ddiwylliannol**

Fe'ch anogir i gynnig bwydydd sy'n Halal a/neu Kosher, gan gynnwys cig a chynnyrch llaeth. Darparwch ystod amrywiol o ffrwythau a llysiau, gwiriwch y cynhwysion wrth ddewis eich olew a brasterau, ac osgowch weini bwydydd sydd wedi'u paratoi ag alcohol lle bo modd.

## 2.3 Diodydd

Gallwch uwchlwytho'ch bwydlenni/rhestr prisiau fel ffeiliau isod yn y ffurflen gais. Gallwch uwchlwytho hyd at 5 ffeil yn yr adran hon. Os nad yw'ch bwydlenni yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei angen, teipiwch yn y blwch testun agored yma.

Ystyriwch werthu diodydd meddal gan gwmniau moesegol.

Ni ellir gwerthu dŵr nac unrhyw ddiodydd mewn poteli plastig untro yn y digwyddiad hwn. Bydd ein tîm yn ymweld â stondinau i wirio hyn yn ystod y digwyddiad a byddwn yn gofyn i chi gael gwared ar unrhyw eitemau plastig untro sy'n cael eu gwerthu yn eich stondin.

Yn ddelfrydol, dylid gwerthu diodydd meddal mewn caniau alwminiwm neu gartonau. Bydd gwastraff gwydr yn cael ei gasglu a'i ailgylchu yn y digwyddiad; fodd bynnag, mae ailgylchu gwydr yn drwm i'w gludo ac yn defnyddio llawer o ynni, gan arwain at allyriadau carbon uwch na deunyddiau eraill fel alwminiwm. Er mwyn ein helpu i gyrraedd ein targedau lleihau gwastraff, gofynnwn i stondinwyr osgoi gwastraff gwydr lle bo modd.

Nodwch ddeunyddiau pecynnu eich diodydd. Ni fydd y cwestiwn yma'n cael ei farcio o dan y meini prawf cynaliadwyedd, ond bydd y wybodaeth yn ein helpu i wneud trefniadau rheoli gwastraff sy'n addas ar gyfer y deunyddiau sy'n cael eu gwerthu.

*Yn berthnasol i Unedau Coffi yn unig – darparwch ystod eang o opsiynau llaeth.*

## 2.4 Tocynnau Bwyd i Wirfoddolwyr y Digwyddiad

*Yn berthnasol i Arlwywyr ac Unedau Bwyd Stryd yn unig.*

Bydd gyda ni 30 o Wirfoddolwyr y Digwyddiad i'n helpu dros y penwythnos. Byddant yn derbyn 1 tocyn bwyd y dydd i'w ddefnyddio mewn stondinau bwyd penodol.

Bydd stondinwyr yn derbyn tocynnau bwyd gwirfoddolwyr yn gyfnewid am:

- 1 prif gwrs
- 1 diod meddal

Bydd angen i chi ysgrifennu ar gefn pob taleb gyfanswm gwerth y trafodiad hwnnw, a bydd aelod o staff Amgueddfa Cymru yn dod i'ch stondin ar ddiwedd pob dydd i wneud taliad cerdyn am gyfanswm y gwerth a hawliwyd.

Byddwn yn dewis 4-5 stondinwr i gymryd rhan yn y cynllun, ac os cewch eich dewis, byddwn yn cysylltu â chi yn nes at yr amser i gadarnhau'r trefniadau.

### 2.5 Darparu Samplau Bwyd/Diod

*Yn berthnasol i Stondinau y Farchnad Fwyd yn unig*

Gwnewch ymdrech os gwelwch yn dda i ddarparu samplau o'ch cynnyrch ar eich stondin, gan bod adborth gan ymwelwyr bob blwyddyn yn dangos y byddai hyn yn gwella'r digwyddiad yn fawr. Bydd eich ymateb i'r cwestiwn yma yn cael ei ystyried yn rhan o'r broses o ddewis stondinwyr yn unol â'r meini prawf.

## Rhan 3 – Cynaliadwyedd

Rydyn ni'n gwybod fod llawer ohonoch hefyd ar daith i leihau eich effeithiau a chefnogi'r gymuned leol, ac am glywed am yr hyn rydych chi'n ei wneud yn barod.

Atebwch y cais hwn mor onest â phosibl. Dywedwch wrthym hefyd am unrhyw beth arall rydych chi'n ei wneud nad ydym wedi'i gynnwys. Rydym yn croesawu unrhyw syniadau neu gynigion eraill sydd gennych i gefnogi ein polisi Cynaliadwyedd ymhellach. Bydd eich ymrwymiadau yn cael eu hystyried yn rhan o'r broses dethol.

### 3.1 Gweithrediadau Busnes

Hoffem weld copi o'ch polisi cynaliadwyedd, os oes gennych chi un.

Dogfen ydy polisi cynaliadwyedd sy'n manylu ar:

1. Cydnabyddiaeth o effeithiau eich busnes
2. Mesurau sydd yn eu lle neu sydd ar waith i leihau yr effaith

Gallwch uwchlwytho hyd at 5 ffeil yn yr adran hon. Wrth uwchlwytho dogfennau gyda'ch cais, sicrhewch fod enw'r ffeil yn cynnwys enw eich busnes a disgrifiad byr o'r ffeil

e.e. [ENW'R BUSNES] – Polisi Cynaliadwyedd

Os nad oes gennych chi bolisi cynaliadwyedd, gallwch gwblhau un trwy NCASS, neu os ydy'ch cais yn llwyddiannus byddwn yn rhannu recordiad a thempledi gyda chi o weithdy a gynhaliwyd gennym y llynedd ar gyfer stondinwyr.

Cyflogwr Cyflog Byw – y cyflog byw go iawn yn y DU yw £13.45 yr awr.

Hoffem glywed am unrhyw beth rydych chi'n ei wneud y tu hwnt i'ch gweithrediadau o ddydd i ddydd i gefnogi sefydliadau lleol neu genedlaethol trwy roi eich amser, arian neu roddion bwyd.

Mae Achrediad B Corp yn broses drylwyr i wirio cwmniau sydd wedi ymrwymo i redeg eu sefydliad i fodloni safonau uchel o berfformiad cymdeithasol ac amgylcheddol, tryloywder ac atebolrwydd. Rydym yn deall bod hon yn broses gymhleth iawn. Os oes digon o ddiddordeb byddwn yn ystyried cynnal sesiwn dysgu a rhannu gwybodaeth gyda busnesau bwyd Cymreig sydd eisoes wedi mynd drwy'r broses achredu.

Mae gan Bwyd a Diod Cymru nifer o Glystyrau sy'n cynnig cefnogaeth a chyfleoedd rhwydweithio i fusnesau Cymru. Nid yw'n orfodol, ond hoffem wybod os ydych yn aelod o unrhyw un o'r Clystyrau hyn.

Os ydych chi wedi ennill, neun gweithio tuag at, unrhyw achrediadau neu gynlluniau cymdeithasol neu amgylcheddol eraill, rhowch wybod i ni yn y blwch testun agored.

Mae gennym ddiddordeb mewn dysgu pa gamau rydych chi'n eu cymryd i leihau'r defnydd o ynni yn eich gweithrediadau, a'r dewis o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio i bweru eich uned gynhyrchu.

### 3.2 Tarddiad ac Ardystiadau Eich Bwyd

Rydyn ni'n gwybod bod llawer ohonoch chi'n dewis y cynhwysion ar gyfer eich prydau yn ofalus; boed yn gynnyrch rydych chi'n tyfu eich hunain, o ffermydd neu gyflenwyr lleol, neu'n rhywbeth sy'n tarddu o'r wlad wreiddiol. Dywedwch wrthon ni am yr eitemau arbennig hynny rydych chi'n chwilio amdanynt.

Rydyn ni hefyd yn gwybod bod hyrwyddo cynnyrch Cymreig o ansawdd uchel a chefnogi'r gadwyn gynhyrchu leol yn bwysig i lawer ohonoch chi – ond mae adborth yn dweud wrthym nad yw hyn bob amser yn glir i ymwelwyr â'r digwyddiad. Yn ôl astudiaeth ddiweddar gan gylchgrawn Food Manufacture, "mae mwy na 2/3 o brynwyr eisiau gwybod o ble y daw eu bwyd ac yn chwilio am y sicrwydd a roddir gan dryloywder ac olrheinedd eu bwyd". Ystyriwch sut y gallwch rannu tarddiad a hunaniaeth Gymreig eich cynnyrch yn eich bwydlenni a deunyddiau arddangos.

Ar hyn o bryd, mae yna 20 o gynhyrchion GI yng Nghymru. Mae Bwyd a Diod cymru wedi lansio ymgyrch yn ddiweddar sy'n cymell mwy o gogyddion yng Nghymru i ddefnyddio a hyrwyddo'r enghreifftiau hyn o gynnyrch gwreiddiol o Gymru yn eu bwydlenni. Pecyn Adnoddau GI | Busnes Cymru – Bwyd a diod

Fel uchod, hoffem glywed am yr ardystiadau rydych chi'n eu dewis ar gyfer eich cynhwysion e.e. Organig, Masnach Deg, Cynghrair Fforestydd Glaw – nodwch y rhai rydych chi'n eu dewis yn gyson.

Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod pa olew coginio rydych chi'n eu dewis ac os yw unrhyw rai o'ch cynhyrchion yn cynnwys olew palmwydd.

Sylwch y bydd tîm ar y safle yn gwirio tarddiad eich cynhwysion; byddant yn gwirio pecynnau ac yn gofyn am gael gweld derbynebau.

Mae'r ŵyl yn cyfrifo ôl troed carbon ei gweithrediadau gan gynnwys y bwyd a werthir ar y safle – byddwn yn gofyn am eich gwerthiant ar y dydd Sadwrn a Sul.

### 3.3 Rheoli Gwastraff

Rydym eisiau clywed am y mesurau rydych chi'n eu cymryd wrth gynhyrch wich bwyd ac ar eich stondinau i leihau gwastraff, lleihau defnyddiau untro ac ailgylchu.

Mae gan yr ŵyl bolisi sy'n gwahardd deunydd plastig untro, felly PEIDIWCH â dod â:

- poteli dŵr plastig
- cyllyll a ffyrc plastig
- caeadau cwpanau coffi
- pecynnu plastig.

Dywedwch wrthon ni am unrhyw beth arall rydych chi'n ei wneud sy'n dod o dan y categori cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol yn y blwch testun agored ar ddiwedd yr adran hon.

### 3.4 Cwpanau Amldro (Reusable)

Ni chaniateir cwpanau plastig untro yn y digwyddiad hwn. Bydd angen i bob diod meddal sy'n cael ei weini mewn cwpan i'w yfed ar y safle fod mewn cwpanau amldro. Mae enghreifftiau o ddiodydd sy'n cael eu gweini i'w hyfed ar y safle yn cynnwys coffi oer, ysgytlaeth, sudd ffres.

Os ydych chi'n gwerthu diodydd meddal sydd angen eu gweini mewn cwpanau, nodwch yma os oes gennych eich stoc eich hun o gwpanau amldro neu os bydd angen i chi fenthyg cwpanau amldro yr Amgueddfa.

Os ydych chi'n defnyddio'ch stoc eich hun o gwpanau amldro, nodwch mai chi fydd yn gyfrifol am gasglu a glanhau'r cwpanau hyn yn ystod ac ar ôl y digwyddiad. Bydd ffi glanhau yn berthnasol os ydych chi'n benthyg cwpanau amldro yr Amgueddfa. Byddwn yn cysylltu â chi unwaith bydd eich stondin wedi ei chadarnhau i drafod ymhellach yn seiliedig ar eich cynnig diodydd a'r nifer o gwpanau byddwch chi eu hangen.

## Rhan 4 – Polisiau a Blaenoriaethau Amgueddfa Cymru

### 4.1 Welsh Language Policy

Rhaid i bob deunydd arddangos, llenyddiaeth ac arwydd y tu mewn a thu allan i'r stondin fod yn ddwyieithog yn unol â chanllawiau Polisi Iaith yr Amgueddfa. Mae hyn yn berthnasol i bob stondinwr ac arddangoswr yn y digwyddiad, heb unrhyw eithriadau.

Uwchlwythwch dystiolaeth o'ch bwydlenni a'ch deunydd arddangos dwyieithog – gallai hyn fod yn luniau o arwyddion presennol, proflenni print, neu ddogfen destun sydd wedi'i chyfieithu. Gallwch uwchlwytho hyd at 5 ffeil yn yr adran hon. Wrth uwchlwytho dogfennau gyda'ch cais, sicrhewch fod enw'r ffeil yn cynnwys enw eich busnes a disgrifiad byr o'r ffeil

e.e. [ENW'R BUSNES] – Bwydlen Gymraeg

Annogir Stondinwyr i gael oleiaf un aelod o staff dwyieithog ar y stondin drwy gydol y penwythnos ble yn bosibl. Cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl os hoffech chi gyngor i recriwtio staff dwyieithog.

Mae Helo Blod yn cynnig gwasanaeth cyfieithu a phrawfddarllen yn ogystal â chyngor ar sut mae defnyddio mwy o Gymraeg yn eich busnes neu elusen. Ac mae'r cwbl lot am ddim! Am fwy o wybodaeth am y gwasanaeth hwn ac i gysylltu gyda'ch Swyddog Helo Blod Lleol ewch i: https://businesswales.gov.wales/heloblod/cy

Mae cymorth a hyfforddiant am ddim hefyd yn cael ei gynnig gan Cymraeg Gwaith gan gynnwys cwrs 10 awr ar-lein arbennig ar gyfer y sector manwerthu fydd yn eich dysgu sut i gyfarch eich cwsmeriaid, eu diolch ac ati.

### 4.2 Iaith Arwyddion Prydain (British Sign Language/BSL)

Mae Strategaeth Amgueddfa Cymru 2030 yn amlinellu ein hymrwymiadau i fabwysiadu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel ein trydedd iaith. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau i ddatblygu rhaglen gŵyl sy'n hygyrch ac yn gynhwysol i bobl F/fyddar, gyda gweithgareddau ar gael yn BSL lle bo modd.

Rydym yn annog stondinwyr yn gryf i gefnogi argymhellion byddai'n hwluso'r broses o archebu bwyd a diod yn y digwyddiad ar gyfer pobl F/fyddar. Mae hyn yn cynnwys:

1) Darparu lluniau o'r cynnyrch wrth y man archebu e.e. ar fwydlenni/byrddau prisiau, neu daflen ar wahân ar gael ar gais.
2) Ymwybyddiaeth – sicrhau bod staff yn ymwybodol bod gennym ni ymwelwyr B/byddar ac anabl i'r digwyddiad ac yn cael cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth os oes angen.

Os hoffech chi fwy o wybodaeth a chymorth gyda hygyrchedd, cysylltwch â ni i drafod ymhellach.

Ni chaiff yr adran hon o'r ffurflen gais ei marcio; fodd bynnag hoffem ddysgu mwy am unrhyw fesurau hygyrchedd rydych chi eisoes yn eu cynnig a'r gefnogaeth y byddech ei hangen gennym ni fel Trefnwyr y digwyddiad i'n helpu i fabwysiadu BSL fel trydedd iaith yn ein gweithgaredd cyhoeddus.

## Rhan 5 – Gwybodaeth Ychwanegol

### 5.1 Sgôr Hylendid Bwyd

Mae'n rhaid i bob stondinwr bwyd a diod gael sgôr hylendid bwyd o 4* neu 5*.

I gadarnhau eich sgôr hylendid bwyd, nodwch ddolen eich busnes ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn y blwch yma – www.food.gov.uk/ratings

Os ydych chi'n fusnes newydd, sydd wedi cofrestru gyda'ch awdurdod lleol ond heb dderbyn eich arolwg eto, nodwch hyn yn y blwch.

## 5.2 Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

Mae'n rhaid i bob stondinwr bwyd a diod gael Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus hyd at isafswm o £1 miliwn.

Uwchlwythwch eich tystysgrif mwyaf diweddar yn y rhan hwn. Os ydy'ch polisi cyfredol yn dod i ben cyn y digwyddiad, bydd y Tîm Digwyddiadau mewn cysylltiad â chi yn agosach at y digwyddiad i gael copi wedi'i ddiweddaru.

Wrth uwchlwytho dogfennau gyda'ch cais, sicrhewch fod enw'r ffeil yn cynnwys enw eich busnes a disgrifiad byr o'r ffeil:

e.e. [ENW'R BUSNES] – Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

## 5.3 Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr

Os ydy hyn yn berthnasol i'ch busnes, uwchlwythwch eich tystysgrif mwyaf diweddar yn y rhan hwn. Os ydy'ch polisi cyfredol yn dod i ben cyn y digwyddiad, bydd y Tîm Digwyddiadau mewn cysylltiad â chi yn agosach at y digwyddiad i gael copi wedi'i ddiweddaru.

Wrth uwchlwytho dogfennau gyda'ch cais, sicrhewch fod enw'r ffeil yn cynnwys enw eich busnes a disgrifiad byr o'r ffeil:

e.e. [ENW'R BUSNES] – Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr

## 5.4 Gwerthiant Alcohol

Sylwer bod gan yr Amgueddfa drwydded safle.

Dim ond deiliaid Trwydded Bersonol gaiff werthu neu gymeradwyo gwerthiant alcohol. RHai di ddeiliaid Trwydded Bersonol un ai wisgo neu arddangos eu trwydded yn eu stondin. Uwchlwythwch gopiau o Drwydded(au) Bersonol y person(au) a fydd yn gyfrifol am werthu alcohol ar eich stondin yn ystod y digwyddiad.

Mae gan yr Amgueddfa bolisi her 21.

Nid oes unedau bar ar gael mwyach ar gyfer y digwyddiad hwn. Bydd bariau dros dro yn cael eu rhedeg gan dîm bwyd a diod yr Amgueddfa. Caniateir gwerthu alcohol ym mhabell y Farchnad Fwyd ar sail manwerthu ac i'w yfed oddi ar y safle yn unig a rhaid i'r eitemau yma gael eu gwerthu mewn cynwysyddion wedi'u selio. Ni chaniateir i fasnachwyr agor poteli ar gyfer cwsmeriaid a rhaid iddynt ei gwneud yn glir ar y pwynt gwerthu na ddylid yfed diodydd a brynir o'r Farchnad Fwyd ar y safle. Bydd hyn yn cael ei fonitro gan staff y digwyddiad a'r Swyddog Trwyddedu.

### 5.5 Tanwydd

Dywedwch wrthon ni os byddwch chi'n llosgi nwy, pren neu siarcol yn eich stondin.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cysylltu â chi i drafod ymhellach ac addasu'r cynllun safle lle bo angen yn unol â'ch asesiad risg.

### 5.6 Cyflenwad Dŵr

Byddwn yn gosod tapiau dros dro i'r prif gyflenwad dŵr mewn rhannau allweddol o safle'r ŵyl yn ôl yr angen.

Sylwch mai ychydig iawn o gyfleusterau sydd gyda ni ar gyfer gwaredu dŵr gwastraff ar dir yr Amgueddfa. Atebwch 'Bydd' i'r cwestiwn yma dim ond os nad oes gennych chi unrhyw opsiynau eraill heblaw bod angen cael gwared arno tra byddwch ar y safle. Os gallwch fynd â hwn i ffwrdd gyda chi ar ddiwedd pob dydd i'w waredu yn ddiogel yn rhywle arall, gwnewch hyn lle bo modd.

Diolch am eich diddordeb yn ein digwyddiad. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach am y digwyddiad neu'r broses ymgeisio, ebostiwch digwyddiadau@amgueddfacymru.ac.uk

**www.amgueddfa.cymru/gwylfwyd**